# Bwyd a Chi 2 CSHB Cylch 4: Cyflwyniad

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: ei rôl, ei chylch gwaith, a'i chyfrifoldebau

Gweledigaeth yr ASB, fel y'i nodir yn strategaeth 2022-2027, yw system fwyd sy'n gwireddu'r gosodiadau canlynol:

- Mae bwyd yn ddiogel
- Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Bwriedir i arolwg Bwyd a Chi 2 fonitro cynnydd yr ASB yn erbyn y weledigaeth hon a llywio penderfyniadau polisi trwy fesur yn rheolaidd yr wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau o ran diogelwch bwyd a materion bwyd eraill a gofnodir gan ddefnyddwyr eu hunain yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

### Cyflwyniad i'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (footnote 1) yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers ei lansio yn 2010 ac mae'n helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus o ran ble i fwyta allan neu siopa am fwyd trwy roi gwybodaeth glir am safonau hylendid busnesau fel yr oeddent adeg yr adolygiad hylendid bwyd. Fel arfer, bydd sgoriau'n cael eu rhoi i safleoedd lle caiff bwyd ei gyflenwi neu'i werthu'n uniongyrchol i bobl, fel bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, gwestai, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal, archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill. Yng Nghymru, mae'r cynllun hefyd yn cynnwys busnesau sy'n masnachu â busnesau eraill yn unig, fel gweithgynhyrchwyr.

Mae'r ASB yn rhoi'r cynllun ar waith mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae swyddog diogelwch bwyd o'r awdurdod lleol yn arolygu busnesau i wneud yn si?r eu bod yn dilyn y gyfraith hylendid bwyd er mwyn i'r bwyd fod yn ddiogel i'w fwyta. Rhoddir sgôr i fusnesau, rhwng 0 a 5. Mae sgôr o 5 yn dangos bod y safonau hylendid yn dda iawn ac mae sgôr o 0 yn dangos bod angen gwella ar frys.

Mae busnesau bwyd yn cael sticer sy'n dangos eu sgôr. Yn Lloegr, caiff busnesau eu hannog i arddangos eu sgôr, ond yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr yn ôl y gyfraith (footnote 2). Mae'r sgoriau hefyd ar gael ar wefan sgoriau'r ASB a thrwy apiau trydydd parti.

### Bwyd a Chi 2

Comisiynodd yr ASB Ipsos i lunio a chynnal arolwg newydd, 'Bwyd a Chi 2', ddwywaith y flwyddyn, a hynny ar-lein yn bennaf. Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yn disodli arolwg Bwyd a Chi yr ASB a gynhaliwyd wyneb yn wyneb (2010-2018) (footnote 3), Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd (2010-2019) ac Arolwg Tracio Agweddau Defnyddwyr y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (2014-

2019) . Gan fod cynnwys y cwestiynau, y dull cyflwyno a'r dull ymateb yn wahanol, ni ddylid cymharu'r arolygon cynharach hyn ag arolwg Bwyd a Chi 2 yn uniongyrchol. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hanes a'r fethodoleg yn Atodiad A.

Cynhaliwyd gwaith maes Bwyd a Chi 2: Cylch 4 rhwng 18 Hydref 2021 a 10 Ionawr 22. Cwblhawyd yr arolwg 'gwthio i'r we' gan gyfanswm o 5,796 o oedolion a 4,026 o gartrefi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y modiwlau a gyflwynir yn adroddiad Bwyd a Chi 2: Cylch 4 yn cynnwys 'Bwyd y gallwch ymddiried ynddo', 'Pryderon am fwyd', 'Diogeledd bwyd', 'Bwyta allan a bwyd tecawê', 'Alergeddau ac anoddefiadau bwyd a mathau eraill o orsensitifrwydd', 'Bwyta gartref', 'Siopa am fwyd: cynaliadwyedd a'r effaith amgylcheddol', a 'Deietau cynaliadwy, dewisiadau amgen i gig a thechnolegau genetig'.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau arolwg Bwyd a Chi 2: Cylch 4 o ran y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, gan gynnwys ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd yr ymatebwyr o'r Cynllun, dealltwriaeth o'r Cynllun a'i effaith ar ymddygiad, ac agweddau tuag at y Cynllun. Nid yw pob cwestiwn a ofynnwyd yn arolwg Bwyd a Chi 2: Cylch 4 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Mae'r holl ganlyniadau ar gael yn y tablau data a'r set ddata sylfaenol.

Disgwylir i adroddiad Tueddiadau Bwyd a Chi 2: Cylch 1-4 gael ei gyhoeddi yn 2023. Fodd bynnag, ni fydd data tueddiadau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn cael eu hadrodd nes bod o leiaf tri cylch o ddata'r Cynllun wedi'u casglu. Mae'r modiwl 'Bwyta allan a bwyd tecawê' sy'n cynnwys y cwestiynau sy'n ymwneud â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i'w weld bob yn ail cylch arolwg Bwyd a Chi 2, o gylch 2 ymlaen.

## Dehongli'r canfyddiadau

I dynnu sylw at y gwahaniaethau allweddol rhwng is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill, dim ond pan fo'r gwahaniaeth absoliwt yn 10 pwynt canran neu ragor ac yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5% ($p<0.05$) y byddwn fel arfer yn tynnu sylw at wahaniaethau yn y proffiliau ymateb. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau rhwng is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill wedi'u cynnwys pan fo'r gwahaniaeth yn llai na 10 pwynt canran, a hynny pan dybir bod y canfyddiad yn nodedig neu'n ddiddorol. Rhoddir seren ddwbl (**) i nodi'r gwahaniaethau hyn.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r gwahaniaethau rhwng rhai is-grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ac is-grwpiau eraill yn y boblogaeth. Mewn rhai achosion, nid oedd yn bosib cynnwys data pob is-gr?p, ond mae'r data hyn ar gael yn y set ddata lawn a'r tablau data.

Darperir gwybodaeth bwysig am bob cwestiwn yr adroddir amdano yn y troednodiadau, gan gynnwys:

- Geiriad y cwestiwn (cwestiwn) a'r opsiynau ymateb (ymatebion).
- Nifer yr ymatebwyr y cyflwynwyd pob cwestiwn iddyn nhw a disgrifiad o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (sylfaen = ).
- Mae 'Pwysig' yn tynnu sylw at bwyntiau pwysig i'w hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau.

1. Mae cynllun tebyg o'r enw'r Cynllun Gwybodaeth Hylendid Bwyd ar waith yn yr Alban.

2. Cyflwynwyd deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol arddangos sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016.

3. Mae’r arolwg Bwyd a Chi wedi bod yn Ystadegyn Swyddogol ers 2014.